Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Hydref
Autumn
2020

Newyddion Dysgu Cymraeg
Learn Welsh Latest

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu
Learn

Dysgu a mwynhau'r Gymraeg

Bydd dros fil o gyrsiau Dysgu Cymraeg newydd ar bob lefel yn dechrau'r mis yma, gyda'r mwyafrif helaeth yn cael eu cynnal o bell, mewn dosbarthiadau rhithiol.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cynnig cyrsiau newydd sy'n cyfuno dysgu mewn dosbarth rhithiol gyda gwaith ar-lein annibynnol. Mae adnoddau digidol di-ri, gan gynnwys ymarferion fideo a sain, hefyd ar gael yn rhad ac am ddim i ddysgwyr ym mhob man.

Am fwy o fanylion, ewch i **dysgucymraeg.cymru**

Hyd at ddiwedd mis Medi, mae cynnig arbennig ar gael i ddechreuwyr, sef **gostyngiad o 50%** ar gyrsiau Mynediad sy'n cychwyn ym mis Medi.

Learning and enjoying Welsh

Over a thousand new Learn Welsh courses at different learning levels are starting this month, with the majority held in virtual classrooms.

The National Centre for Learning Welsh is also offering combined courses, which mix learning in a virtual classroom with independent online study. A range of digital resources, including video and audio exercises, are also available free of charge for learners everywhere.

For more information, go to **learnwelsh.cymru**

Until the end of September, a special offer is available for beginners – a **50% discount** on Mynediad/ Entry courses which start in September.

Cymraeg Gwaith ar ei newydd wedd

Mae cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan wedi'i addasu'n llwyr, gyda chyfres o becynnau deniadol i gyflogwyr a'u gweithluoedd fanteisio arnynt.

Am y tro cyntaf, cynigir cwrs hunan-astudio sy'n gyfwerth â 60 awr o ddysgu Cymraeg, i'w gwblhau gyda chefnogaeth tiwtor. Cynigir gweminarau byw hefyd.

Bydd modd i staff sy'n cofrestru ar y cynllun ddefnyddio 'Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg' y Ganolfan, sef teclyn arloesol sy'n asesu sgiliau Cymraeg unigolion, a bydd rhai yn gallu sefyll arholiad.

Mae gweithwyr hefyd yn gallu dilyn cyrsiau blasu ar-lein sy'n cyflwyno geiriau ac ymadroddion pob dydd, yn ogystal â chyrsiau ychwanegol sy wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol sectorau, gan gynnwys y byd iechyd a gofal.

Bu'n rhaid addasu cynllun Cymraeg Gwaith yn sgil toriadau i gyllideb y Ganolfan o ganlyniad i'r argyfwng iechyd cyhoeddus. Mae'r Ganolfan yn hyderus y bydd y cynllun ar ei newydd wedd yn parhau i gynnig cyfleoedd i weithwyr ddysgu'r iaith yn eu gweithleoedd.

Mae mwy o wybodaeth am y cynllun ar gael **yma**.

New look for Work Welsh

The Centre's Work Welsh scheme, which aims to strengthen Welsh language skills in the workplace, has been significantly revised, with a choice of learning programmes for employers and their employees.

For the first time, the Centre will be offering a self-study course equivalent to 60 hours of Learn Welsh tuition, to be completed with a tutor's support. Live webinars will also be available.

Employees registered on the scheme will be able to use the Centre's 'Learn Welsh Level Checker', which uses pioneering technology to assess individuals' Welsh language skills. Some learners will also be able to sit an exam.

Workers will also be able to follow online taster courses, which introduce everyday words and phrases, as well as additional online courses tailored for different sectors, including health and social care.

The scheme has been revised following cuts to the Centre's budget resulting from the public health crisis. The Centre is confident the new-look scheme will continue to provide opportunities for workers to learn Welsh in their places of work.

More information about the scheme is available **here**.

Cymraeg Gwaith
Work Welsh

Cymraeg yn y Cartref

Mae adnodd ar-lein a chwrs Dysgu Cymraeg newydd ar y gweill fel rhan o'r cynllun Cymraeg yn y Cartref.

Mae'r adnodd ar-lein wedi'i greu ar gyfer teuluoedd di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. Mae'n cynnwys fideos, astudiaethau achos a chefndir esboniadol am fentrau fel yr Urdd. Bydd cyfle, hefyd, i ddysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg perthnasol.

Mae'r cwrs Cymraeg yn y Cartref newydd, sy'n addas ar gyfer dechreuwyr, yn cael ei gyflwyno yn y Flwyddyn Newydd.

Mae cynllun **Clwb Cwtsh**, sy'n bartneriaeth rhwng y Ganolfan a Mudiad Meithrin, hefyd yn parhau yn ystod yr hydref, gyda sesiynau yn cael eu cynnal o bell.

Bwriad y cynllun yw cyflwyno geiriau ac ymadroddion sy'n berthnasol i fagu plant ifanc ac mae'r sesiynau anffurfiol yn addas i rieni a gofalwyr sy eisiau dechrau dysgu'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod clo, dangoswyd **fideos newydd** wedi'u cyflwyno gan Lowri Delve, athrawes brofiadol a chyn-gyflwynydd rhaglenni Cyw ar S4C. Ochr yn ochr â'r fideos, trefnwyd sesiynau ymarfer ar-lein i rieni mewn partneriaeth â 'Cymraeg i Blant', cynllun Llywodraeth Cymru.

Bydd angen i bawb sydd â diddordeb yn y Clwb Cwtsh gofrestru ymlaen llaw, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael **yma**.

Welsh at Home

A new online resource and Learn Welsh course are being introduced as part of the Centre's Welsh at Home scheme.

The online resource has been developed for non Welsh-speaking families who are sending their children to Welsh-medium schools. It features videos, case studies and background information about organisations such as the Urdd youth movement. There will also be an opportunity to learn relevant words and phrases.

A new Welsh at Home course, suitable for beginners, will also be introduced in the New Year.

The **Clwb Cwtsh** scheme, a partnership between the Centre and Mudiad Meithrin, the Early Years specialists, will also continue during the autumn, with sessions held via distance learning.

Clwb Cwtsh aims to introduce words and phrases relevant to raising young children and these informal sessions are suitable for parents and carers who want to start learning Welsh.

During lockdown, **new videos** introduced by Lowri Delve, a former S4C children's presenter and experienced teacher, were shown on Facebook. Alongside these videos, online practise sessions for parents were held in partnership with 'Cymraeg for Kids', the Welsh Government scheme.

People interested in joining Clwb Cwtsh will need to register beforehand. More information is available **here**.

Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg

Bydd lleisiau dysgwyr i'w clywed ar draws BBC Radio Cymru rhwng 12-16 Hydref fel rhan o'r Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg.

Bydd rhaglen ddogfen newydd am ddysgwyr Cymraeg ledled y byd a digon o eitemau amrywiol gan, ac ar gyfer, dysgwyr.

I gyd-fynd â'r wythnos bydd ymgyrch i ddarganfod hoff ganeuon dysgwyr Cymraeg.

Bydd rhagor o wybodaeth am yr wythnos ac amserlen lawn ar gael yn fuan.

DATHLU DYSGU CYMRAEG

Celebrating Learning Welsh

Welsh learners' voices will be heard across the BBC Radio Cymru schedule between 12-16 October, as part of a week-long celebration of learning Welsh, 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg'.

A new documentary programmes about Welsh learners living across the world will be broadcast, along with a range of items for, and by, learners.

There will also be a campaign to find learners' favourite Welsh language songs.

More information, along with a full timetable, will be available soon.